

Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Hysbysiad Hwylus

Medi 2012

Cyflwyniad

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn aelod o gabinet y Deyrnas Unedig ac mae staff Swyddfa Cymru yn Llundain a Chaerdydd yn cefnogi'r swydd. **Nid** yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ("Deddf 2006") mae ganddo rai pwerau a chyfrifoldebau mewn cysylltiad â'r Cynulliad. Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar hyn o bryd yw'r Gwir Anrhydeddus David Jones AS, a benodwyd ar 4 Medi 2012.

Cynorthwyr yr Ysgrifennydd Gwladol presennol gan y Farwnes Randerson, Is-ysgrifennydd Seneddol a Stephen Crabb AS, Comisiynydd Tŷ'r Arglwyddi i Drysorlys Ei Mawrhydi ac Is-ysgrifennydd Seneddol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn cael ei gynorthwyo gan Daniel Kawczynski AS, yr Ysgrifennydd Seneddol Preifat.

Hanes

Crëwyd Y Swyddfa Gymreig a swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym 1964 gan y Llywodraeth Lafur o dan arweiniad y Gwir Anrhydeddus Harold Wilson AS. Bu 16 o Ysgrifenyddion Gwladol Cymru ers hynny:

- | | |
|--|-------------------|
| ■ Y Gwir Anrhydeddus James Griffiths AS | Y Blaid Lafur |
| ■ Y Gwir Anrhydeddus Cledwyn Hughes AS | Y Blaid Lafur |
| ■ Y Gwir Anrhydeddus George Thomas AS | Y Blaid Lafur |
| ■ Y Gwir Anrhydeddus Peter Thomas AS | Y Blaid Geidwadol |
| ■ Y Gwir Anrhydeddus John Morris AS | Y Blaid Lafur |
| ■ Y Gwir Anrhydeddus Nicholas Edwards AS | Y Blaid Geidwadol |
| ■ Y Gwir Anrhydeddus Peter Walker AS | Y Blaid Geidwadol |
| ■ Y Gwir Anrhydeddus David Hunt AS | Y Blaid Geidwadol |
| ■ Y Gwir Anrhydeddus John Redwood AS | Y Blaid Geidwadol |
| ■ Y Gwir Anrhydeddus William Hague AS | Y Blaid Geidwadol |
| ■ Y Gwir Anrhydeddus Ron Davies AS | Y Blaid Lafur |
| ■ Y Gwir Anrhydeddus Alun Michael AS | Y Blaid Lafur |
| ■ Y Gwir Anrhydeddus Paul Murphy AS | Y Blaid Lafur |

- Y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS Y Blaid Lafur
- Y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS Y Blaid Geidwadol
- Y Gwir Anrhydeddus David Jones AS Y Blaid Geidwadol

Swyddfa Cymru

Dywed gwefan Swyddfa Cymru:

Mae Swyddfa Cymru yn cynorthwyo Ysgrifennydd Gwladol Cymru i sicrhau bod y drefn ddatganoli yn gweithio'n ddidrafferth yng Nghymru. Dyma lais Cymru yn San Steffan a llais San Steffan yng Nghymru.

Yn ogystal â bod yn llais Cymru yn San Steffan a llais San Steffan yng Nghymru, mae Swyddfa Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod deddfwriaeth Cymru yn mynd trwy'r Senedd yn ddidrafferth ynghyd â'r trafodion ariannol rhwng Llywodraeth y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hefyd yn ysgwyddo swyddogaethau neilltuedig penodol ar gyfer Cymru.¹

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol nifer o ddyletswyddau mewn perthynas â'r Cynulliad, a drafodir yn ddiweddarach, ond yn San Steffan caiff bleidlais grant bloc Cymru gan Senedd y DU, a gaiff ei drosglwyddo i'r Cynulliad wedyn, yng Nghronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn gyfrifol am lywio deddfwriaeth sy'n ymwneud â Chymru'n unig, drwy Senedd y DU. Mae'r rhain wedicynnwys *Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004*; *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005*; *Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006* a *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*. Rhwng 2007 a 2011 roedd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn gyfrifol am hynt Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol drwy Senedd y DU.

Roedd Adroddiad Blynyddol 2011 yn disgrifio cyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Gwladol fel a ganlyn:

Yr Ysgrifennydd Gwladol sydd â'r cyfrifoldeb Gweinidogol cyffredinol dros weithrediad Swyddfa Cymru ac mae'n cynrychioli buddiannau Cymru yn y Cabinet. Mae'n gyfrifol am gynnal cysylltiadau gweithio agos â Gweinidogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gwarchod lle Cymru fel rhan o'r Undeb; cynrychioli'r Llywodraeth glymblaid yng nghyswllt amrywiaeth eang o fuddiannau yng Nghymru; a sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu deall a'u cynrychioli'n briodol yn Whitehall. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn annerch Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth glymblaid.²

Mae gan Swyddfa Cymru 60 o staff, wedi'u lleoli yn Llundain a Chaerdydd ac mae'n gweithio'n bennaf o fewn y Llywodraeth a rhwng Llywodraeth y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae gan Swyddfa Cymru nifer o gytundebau lefel gwasanaeth gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi cyflwyno ei chyfrifoldebau craidd, a'r gwasanaethau cymorth angenrheidiol.³

Yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Cynulliad Cenedlaethol

Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* ("Deddf 2006") yn cynnwys adran⁴ sy'n rhoi'r hawl i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gymryd rhan, ond nid i bleidleisio, yn nhafodion y Cynulliad, ac i weld dogfennau sy'n berthnasol i'r trafodion hynny. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys y gofyniad bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ymgynghori â'r Cynulliad am raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU a chymryd rhan yn un o Gyfarfodydd Llawn y Cynulliad o leiaf unwaith y sesiwn. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol gymryd rhan drwy ddod i'r Cyfarfod Llawn, neu drwy gyswllt fideo. Os penderfynir, ar ôl dechrau'r sesiwn, y dylai bil gael ei gyflwyno i Senedd y DU ac nad yw'r bil hwnnw wedi'i gynnwys yn ymgynghoriad

¹ **Gwefan Swyddfa Cymru.** [fel ar 5 Medi 2012]

² Swyddfa Cymru: Adroddiad Blynyddol 2010/11

³ Ibid.

⁴ *Deddf Llywodraeth Cymru* (c.32) s.32 (1)

cychwynnol yr Ysgrifennydd Gwladol â'r Cynulliad, yna rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r Cynulliad yn ei gylch (oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gweld bod gwneud hynny'n amhriodol).

Mae Deddf 2006 yn rhoi pwerau penodol i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad ag etholiadau'r Cynulliad. Bydd ganddo ef neu hi'r grym i amrywio dyddiad etholiad cyffredinol neu etholiad cyffredinol arbennig ac i wneud darpariaeth ynghylch Etholiadau'r Cynulliad.

O dan y Ddeddf, mae rhai o bwerau a dyletswyddau Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn cysylltiad â'r Cynulliad yn cynnwys:

- Pŵer i ymyrryd mewn rhai achosion. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud Gorchymyn sy'n atal y Clerc rhag cyflwyno Bil arfaethedig y Cynulliad i gael cymeradwyaeth gan y Frenhines / Brenin yn y Cyfrin Gyngor. Mae hwn yn berthnasol mewn achosion lle y byddai'r Mesur arfaethedig:
 - yn cael effaith andwyol ar faterion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;
 - yn gallu cael effaith andwyol ddifrifol ar adnoddau, cyflenwadau neu ansawdd dŵr yn Lloegr;
 - yn cael effaith andwyol ar weithredu'r gyfraith fel y mae'n berthnasol yn Lloegr; neu
 - yn anghydnaws ag unrhyw rwymedigaeth ryngwladol neu fuddiannau'n ymwneud ag amddiffyn, neu ddiogelwch cenedlaethol.⁵
- Datganiad ar daliadau a amcangyfrifir. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud datganiad bob blwyddyn ariannol a'i osod gerbron y Cynulliad.
- Ymyrryd yn achos swyddogaethau sy'n ymwneud â dŵr ac ati. Mae'r Ddeddf yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd lle y gallai arfer swyddogaethau datganoledig (neu fethiant i'w harfer) gan Brif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol, neu gan unrhyw un arall y mae swyddogaethau o'r fath wedi'u rhoi iddynt gan un o Ddeddfau'r Cynulliad, gael effaith andwyol ddifrifol ar adnoddau, cyflenwadau neu ansawdd dŵr yn Lloegr.

Rhagor o wybodaeth

⁵ Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32) s114



I gael rhagor o wybodaeth am **Ysgrifenydd Gwladol Cymru**, cysylltwch ag **Alys Thomas** (alys.thomas@cymru.gov.uk), Y Gwasanaeth Ymchwil.

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: assemblywales.org/research

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: [@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at Research.Service@wales.gov.uk

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

Ymholiad rhif: 12/2329

Alys Thomas